AMGUEDDFA CYMRU

# GALWAD AM DDIDDORDEB

## Amgueddfa Lechi Cymru

amgueddfa.cymru
museum.wales

**Cefndir**

**Mae hwn yn gyfle cyffrous i chwarae rhan yn y gwaith o drawsnewid un o amgueddfeydd mwyaf poblogaidd Amgueddfa Cymru. Bydd Project Ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru yn gwarchod, gwella a dehongli safle arbennig yr Amgueddfa Lechi, ac yn creu canolfan Treftadaeth y Byd UNESCO gan gefnogi sgiliau traddodiadol, dysgu a lles.**

**Bydd y project yn ymgysylltu â chymunedau ac ymwelwyr ac yn eu hysbrydoli, gan gysylltu pobl â stori ryfeddol y diwydiant llechi a'r dirwedd ryngwladol-bwysig y mae wedi'i siapio.**

**Mae Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i greu gofodau newydd a gwahanol ble mae pobl yn gweld eu hunain yn profi ymdeimlad o berthyn. Bydd y Project yn gweithio gyda chymunedau a lleisiau lleol i greu gofodau a phrofiadau ysbrydoledig sy'n cynnig persbectif unigryw ar hanes y cymunedau chwarela a luniodd yr ardal hon o Gymru.**

**Bydd y Project yn;**

1. **Gwella mwynhad, mynediad a lles y cyhoedd drwy'r profiad ymwelwyr drwy wella cyfleusterau i bawb yn Gilfach Ddu a chreu cyfleoedd i ddarganfod yr amgueddfa'n ddigidol. Gwarchod ac adnewyddu adeiladau rhestredig Gradd 1 a chasgliadau arwyddocaol Gilfach Ddu a diogelu a rhannu'r dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol drwy gadw a datblygu sgiliau traddodiadol sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi.**
2. **Fel canolfan ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd, cynyddu dealltwriaeth cymunedau ac ymwelwyr o ddynodiad Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO drwy ddehongliad arloesol o hanes o bwys rhyngwladol y diwydiant llechi, sydd o ansawdd uchel ac yn canolbwyntio ar y gymuned.**
3. **Galluogi mwy o bobl o bob cefndir i ddysgu drwy gydol eu hoes, meithrin eu sgiliau a bod yn greadigol. Creu cyfleoedd, adnoddau a llefydd ysbrydoledig ac atyniadol ar gyfer meithrin sgiliau crefft traddodiadol, dysgu, gwirfoddoli, cyflogaeth, lles a chreadigrwydd.**
4. **Rhoi cynaliadwyedd amgylcheddol wrth wraidd yr amgueddfa. Galluogi gwelliannau cynaliadwy a gwaith datgarboneiddio i adeiladau'r amgueddfa a'r cyffiniau, y seilwaith a gweithrediadau. Adlewyrchu ymagwedd arloesol a hanesyddol y safle at gynaliadwyedd yn y dehongliad.**
5. **Cysylltu pobl a chymunedau yn well â chasgliadau amrywiol Amgueddfa Cymru, gan sicrhau bod pawb yn cael eu cynrychioli. Cynnwys pobl a chymunedau wrth adrodd straeon ysbrydoledig o arwyddocâd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol am y diwydiant llechi, ei bobl a'r amgylchedd, ar y safle ac yn ddigidol.**
6. **Ar hyn o bryd, mae Amgueddfa Lechi Cymru yn denu tua 150,000 o ymwelwyr am ddim bob blwyddyn. Fel atyniad treftadaeth ddiwydiannol awyr agored yn bennaf, mae patrymau ymwelwyr yn dymhorol iawn gyda 944 o ymwelwyr y dydd ar gyfartaledd ym mis Awst o'i gymharu â 115 o ymwelwyr y dydd ym mis Ionawr. Un o brif amcanion y project yw creu esiampl o gynaliadwyedd sy'n rhoi cefnogaeth i gymunedau o bob rhan o ogledd-orllewin Cymru, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.**
7. **Gwarchod ac adnewyddu adeiladau rhestredig Gradd 1 a chasgliadau arwyddocaol Gilfach Ddu a diogelu a rhannu'r dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol drwy gadw a datblygu sgiliau traddodiadol sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi.**

**Beth?**

**Ydych chi'n gerddor, artist, peiriannydd sain neu'n gweithio mewn maes creadigol?**

**Rydym yn chwilio am weithwyr llawrydd i'n helpu ni gyda phroject cerddorol cyffrous fydd yn rhan o ailddatblygiad Amgueddfa Lechi Cymru.**

**Byddwch chi'n arwain project gyda'r amcan o ddod â phobl ynghyd i weithio gyda sŵn a cherddoriaeth mewn ffordd sy'n adlewyrchu hanes, tirwedd a straeon byw'r gymuned leol. Dyma gyfle i gydweithio, arbrofi a chreu gwaith newydd fydd yn cael ei gynnwys yn ailddatblygiad yr Amgueddfa Lechi.**

**Bydd disgwyl i chi weithio gyda grwpiau targed o'r ardaloedd llechi neu sydd yn ardal leol yr amgueddfa, gyda ffocws ar un neu fwy o'r grwpiau yma:**

**cymunedau lleol, pobl o ardaloedd economaidd-gymdeithasol isel, cymunedau mwyafrif byd-eang, pobl hŷn gan gynnwys pobl yr effeithir arnynt gan ddementia, pobl ifanc.**

**Allbwn:**

- **Darnau cerddorol newydd a grëwyd ar y cyd gyda chymunedau targed lleol, fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfoethogi dehongli newydd Amgueddfa Lechi Cymru. Nodwch bydd gan Amgueddfa Cymru hawlfraint a pherchnogaeth dros unrhyw allbwn.**
- **Helpu cydlynu a chyfrannu at ddigwyddiad arbennig i ddathlu'r gwaith ar ddiwedd y project, er enghraifft cyngerdd neu ŵyl.**

**Byddwch yn gyfrifol am:**

- **Recriwtio a gweithio gyda chymunedau,**
- **Datblygu syniadau creadigol sy'n ymateb i'r Amgueddfa a'i hanes,**
- **Arwain ar broses gydweithredol, gynhwysol a chyffrous i greu'r allbwn.**

---

**Pryd?**

**I gychwyn mor fuan â phosib. Er bod yno ychydig o hyblygrwydd, rydym yn gobeithio bydd y project creadigol hwn yn dod i ben tua diwedd 2026. Mi fydd hi'n bosib cyflwyno elfennau terfynol yn gynnar yn 2027, ond dim hwyrach na diwedd Mawrth 2027.**

---

**Pwy?**

- **Cerddorion**
- **Artistiaid sain a chydweithredol**
- **Cynhyrchwyr a pheirianwyr sain**
- **Ymarferwyr creadigol gyda phrofiad o weithio gyda chymunedau**

**Os oes gennych ddiddordeb mewn cyd-greu, adrodd straeon trwy sain, a gweithio'n uniongyrchol gyda phobl - gyrrwch ddatganiad o ddiddordeb! Mae'n hollbwysig i ni fod pobl yn gallu cymryd rhan yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac felly'n bwysig bod unrhyw hwyluswyr neu waith cymunedol yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Byddwn yn ffafrio datganiadau o ddiddordeb gan unigolion sy'n siarad Cymraeg neu'r rhai sy'n dangos dealltwriaeth o hyn.**

Amgueddfa Cymru sydd i'w gweld yn: Polisi Iaith Gymraeg | Museum Wales

---

**Faint?**

**Mae cyfanswm o 3 cronfa o £3,000 ar gael, ar gyfer 3 elfen wahanol. Wrth feddwl am gyllideb neu gynllun bras, ystyriwch y dylai'r cyfanswm o £3,000 gynnwys holl ffioedd, teithio, chynhaliaeth ac unrhyw ddeunyddiau.**

**Mae gennym gyllideb ar wahân i dalu costau darpariaeth cyfieithu neu unrhyw gostau sy'n ymwneud â hygyrchedd.**

**Mae Amgueddfa Cymru yn ad-dalu costau teithio ar gyfer gweithwyr llawrydd ar gyfradd o 25c y milltir.**

---

**Mynegi diddordeb**

**Rydym yn croesawu cynigion ysgrifenedig dim mwy na 2 dudalen A4, neu fideo byr/recordiad llais sydd o dan 5 munud. Rydym yn hapus i drafod ffyrdd eraill o wneud cais am y cyfle hwn.**

**Bydd angen cynnwys y wybodaeth ganlynol:**

1. **Profiad perthnasol o sut rydych chi wedi ymgysylltu'n greadigol â chymunedau,**
2. **Gwybodaeth am eich maes ymarfer creadigol a'ch syniadau ar gyfer y prosiect - be fyddech chi'n bwriadu ei gyflawni ac efo pwy fyddech chi'n bwriadu gweithio.**
3. **Amlinelliad o'ch costau chi, gan gynnwys eich ffi dyddiol.**

**Ymgeisio**

**Anfonwch eich mynegiant o ddiddordeb drwy e-bost at Chloe Ward - chloe.ward@amgueddfacymru.ac.uk - erbyn 11/9/26.**

**Byddwn yn adolygu ceisiadau yn barhaus ac yn cysylltu â phob ymgeisydd ddim hwyrach na wythnos ar ôl y dyddiad cau.**

**Ariennir project ail ddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru gyda nawdd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth y DU trwy Gyngor Gwynedd fel rhan o brosiect Llewyrch o'r Llechi, Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol, Sefydliad Wolfson, Sefydliad Garfield Weston a chyllidwyr eraill.**